

Y Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ffyniannus

Gwyrdd

Cyfartal



Neges gan y Gweinidog



Ken Skates AS

Gweinidog yr Economi,
Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

Gwella llesiant pawb yng Nghymru yw'r genhadaeth sy'n llywio dull ein Llywodraeth ar gyfer gweithredu ar yr economi. Mae angen inni adfer o ddifrod economaidd y pandemig ac yna, ailadeiladu'r economi gyda'r nod sylfaenol o sicrhau llesiant hirdymor cynaliadwy gydag urddas a thegwch i bawb. Gan ddefnyddio egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r ddogfen hon yn nodi'n glir y gwerthoedd a'r blaenoriaethau a fydd yn llywio'r penderfyniadau y mae'n rhaid inni eu gwneud i ategu ein hadferiad economaidd.

Mae pandemig COVID-19 yn parhau i fod yr argyfwng iechyd cyhoeddus mwyaf a welwyd yn ein hoes ni. Mae'n cael effaith ddofn a niweidiol ar ein hiechyd a'n cymdeithas. Mae COVID-19 wedi cael effaith ar yr economi a'r farchnad lafur na welwyd mo'i thebyg o'r blaen, gan beri llawer o aflonyddu ac arwain at ostyngiad sydyn yn nifer y bobl mewn gwaith, nifer yr oriau y maent yn eu gweithio a nifer y swyddi gwag sydd ar gael. Goresgyn y feirws a cheisio atal a lliniaru difrod ychwanegol o ganlyniad i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yw ein hamcanion allweddol. Mae'r ddau'n bygwth gwrthdroi'r cynnydd rydym wedi'i wneud wrth leihau diweithdra ac anweithgarwch economaidd yng Nghymru dros y degawd diwethaf, a'r unigolion hynny sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol, er enghraifft, menywod, cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig, pobl a chanddynt anableddau a phobl ifanc sy'n dod i'r farchnad lafur am y tro cyntaf sydd wedi dioddef yr effeithiau mwyaf andwyol.

Mae'r DU wedi gadael Marchnad Sengl yr UE, ac nid ydym bellach yn gallu masnachu nwyddau neu wasanaethau ag aelod-wladwriaethau yr UE yn ddirwysr. Mae'r effeithiau ar fusnesau gweithgynhyrchu a'u gweithwyr, sy'n cyfrif am ran fwy o economi Cymru nag ym mannau eraill y DU, yn sylweddol. Bydd rhaid inni ddod i arfer â gwiriadau ar y ffin a gofynion gweinyddol newydd – yn ogystal â phatrymau mewnfudo newydd a newidiadau i fecanweithiau cyllido.

Ar yr un pryd, mae gennym gyfle heb ei ail i feddwl am y tymor hir ac edrych tua'r dyfodol – i fynd i'r afael â llawer o'r heriau ystyfnig y mae Cymru yn eu hwynebu ac i helpu ein pobl, ein busnesau a'n cymunedau i wella a ffynnu gydag egni newydd. Nid ceisio adennill y cynnydd a wnaed mewn perthynas â diweithdra ac anweithgarwch economaidd yn unig y byddwn ni. Rydym yn benderfynol o ymdrin â'r economi mewn modd gwahanol, i sicrhau bod y gweithwyr wir ar eu hennill o ganlyniad i'r buddsoddi, ac i fynd i'r afael â swyddi ansicr a thlodi mewn gwaith. Rhaid i'r dull hefyd ystyried yr heriau sylfaenol rydym yn eu hwynebu wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur. Mae heriau a chyfleoedd ar gyfer yr economi sylfaen a'r economi fasnachu.

Rydym wedi ymateb yn gyflym, gan fanteisio ar gryfderau ein dull cydweithiol o weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, sy'n cynnwys y Llywodraeth, cyflogwyr a'r Undebau Llafur, i liniaru'r effeithiau economaidd wrth gefnogi busnes a gweithwyr. Er hynny, dros y 12 mis nesaf disgwylir y bydd diweithdra, tangyflogaeth ac anweithgarwch economaidd yn cynyddu yng Nghymru a ledled y DU. Mae'n hanfodol nad ydym yn caniatáu i'r amodau economaidd hyn arwain at sefyllfa lle y gall gwaith annheg ymwreiddio a lledaenu. Gan gydweithio gyda'n partneriaid cymdeithasol, byddwn yn sicrhau nad yw amodau economaidd anodd yn arwain at ras i'r gwaelod, nac yn glastwreiddio ein huchelgais i weld gwlad sy'n hyrwyddo gwaith teg.

Bydd pobl ifanc, menywod a chymunedau lleiafrif ethnig yn wynebu anawsterau penodol wrth ymuno ac ailymuno â'r farchnad lafur, ac o fewn y grwpiau hyn, y rhai â lefelau is o gymwysterau (ac anfanteision eraill) a fydd yn wynebu'r heriau mwyaf. Gyda chyfnod o ddiswyddiadau'n cael ei ddilyn, o bosibl, gan gyfnod gwan o greu swyddi, mae tystiolaeth gref y gallai diweithdra torfol gael effaith ddofn, andwyol hirdymor ar bobl, gan arwain at lefelau is o incwm a risgiau uwch o fod yn ddi-waith. Bydd yr effeithiau niweidiol hyn yn para am flynyddoedd lawer – degawdau hyd yn oed.

Gyda'i gilydd maent yn bygwth gwead ein cymunedau, rhai trefol a rhai gwledig, ac yn peri risg anuniongyrchol i'r pethau rydym yn eu gwerthfawrogi fel cenedl fel

bywiogrwydd ein cymunedau Cymraeg eu hiaith. Mewn cymunedau gwledig yn y gorllewin a'r gogledd-orllewin yn enwedig, lle mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn uchel, mae nifer o risgiau hirdymor yn parhau mewn perthynas â'r diwydiant amaethyddol, ochr yn ochr â risgiau tymor byrrach sy'n gysylltiedig ag effaith y pandemig ar y diwydiant twristiaeth a busnesau bach a chanolig gwledig.

Bydd effeithiau economaidd y pandemig yn cael effaith wahanol ar draws y gwahanol sectorau economaidd. Bydd angen i bob busnes newid er mwyn ymateb i'r symud tuag at economi fwy cylchol, gan gynnwys y diwydiannau y mae'n debygol y byddant yn adfer i'r un lefel o fasnachu ag o'r blaen, e.e. diwydiannau cynradd fel chwarela. Bydd eraill yn adfer ond bydd angen iddynt esblygu a dychwelyd mewn modd gwahanol a mwy cadarn, e.e. hedfanaeth a dur. Mae gan waith mentrau fel Clwstwr Diwydiannol De Cymru ran i'w chwarae wrth sicrhau'r newid hwn. Gall ailgyflwyno cyfyngiadau, hyder defnyddwyr a chryfder llyfrau archebion hefyd olygu bod rhai rhannau o'r economi'n adfer yn llawer arafach, e.e. lletygarwch, ac adeiladu sy'n gysylltiedig â'r farchnad dai. Bydd yr effeithiau negyddol yn cael eu dwysáu gan ansicrwydd ynghylch perthynas fasnachu'r DU â'r UE yn y dyfodol ac effeithiau andwyol trefniadau newydd.

Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar yr economi wedi bod yn sylweddol, ond mae ein penderfyniad i weld ymateb integredig hefyd yn cydnabod y bydd

angen rhoi sylw i effeithiau anuniongyrchol, megis canlyniadau iechyd meddwl ac emosiynol gwael ar draws gweithlu Cymru.

Wrth edrych i'r dyfodol, ni fydd ailadeiladu'r economi yn fater o ddychwelyd i fusnes fel arfer. Mae'r byd wedi newid am byth. Mae'r ymateb i'r pandemig wedi cyflymu llawer o dueddiadau strwythurol o ran awtomeiddio, datgarboneiddio ac effaith poblogaeth sy'n heneiddio a oedd yn amlwg cyn yr argyfwng. Mae gan y newidiadau hyn oblygiadau difrifol i ddyfodol gwaith, cymunedau a llesiant. Mae COVID-19 wedi cael effaith ar yr economi a'r farchnad lafur na welwyd mo'i thebyg o'r blaen, gan beri llawer o aflonyddu ac arwain at ostyngiad sydyn yn nifer y bobl mewn gwaith, nifer yr oriau y maent yn eu gweithio a nifer y swyddi gwag sydd ar gael. Bydd datblygiadau arloesol ym maes technoleg ddigidol yn parhau i ysgogi newidiadau i strwythur a natur economi Cymru, gan greu heriau o ran awtomeiddio gwaith, ond byddant hefyd yn arwain at gyfleoedd ar gyfer busnes newydd, buddsoddiadau, gwaith llai dwys a chydbwysedd gwell rhwng gwaith y bywyd.

Er bod COVID-19 wedi dod yn sydyn ac wedi bod yn gostus iawn, rydym hefyd wedi gweld pobl a chymunedau'n dod at ei gilydd, yn ailgysylltu â'i gilydd ac â gwasanaethau lleol ac yn trefnu mewn ffyrdd nad ydym wedi eu gweld ers cof byw. Mae'r cyfnod heriol hwn i fusnesau a gweithwyr

ledled Cymru yn parhau; ond yr ydym wedi gweld enghreifftiau rhagorol lle mae busnesau a gweithwyr wedi ailbwrpasu ac ymaddasu i fanteisio'n well ar dechnoleg ac i gyflenwi marchnadoedd newydd.

Mae angen inni harneisio cyfleoedd fel sgiliau a galluoedd ein gweithlu, diwylliant entrepreneuriaidd bywiog, ffocws newydd ar yr amgylchedd, gweithwyr allweddol a gwasanaethau cyhoeddus – sy'n cael eu gwerthfawrogi o'r newydd, awydd am ddysgu gydol oes a dysgu ar-lein, a'r ffordd mae technoleg ddigidol wedi ein cysylltu a'n galluogi i weithredu fel cymdeithas. Byddwn yn parhau i ddadlau o blaid gwerth yr Economi Sylfaenol, ac ni fyddwn byth yn ystyried y swyddi hynny sy'n ein cadw'n ddiogel ac yn waraidd yn swyddi di-sgil ac anghynhyrchiol.

Er bod y genhadaeth adfer hon yn canolbwyntio ar ein hysgogiadau polisi, mae hefyd yn cydnabod yr integreiddio cynhenid rhwng economi Cymru ac economi ehangach y DU, ac nid yw'n dibrisio'r effaith sylweddol mae penderfyniadau Llywodraeth y DU, fel yr Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr, Bil y Farchnad Fewnol a'u hagenda lefelu sy'n seiliedig ar le yn ei chael ar Gymru.

Rwyf wedi myfyrio ar ehangder a natur gynyddol ein Cynllun Gweithredu ar yr Economi presennol, *Ffyniant i Bawb*, ac wedi ailffocysu ein gweithgareddau ar sail yr amgylchiadau unigryw

rydym yn eu hwynebu – nid cymaint fel her newydd ond her ddyfnach. Byddwn yn adeiladu ar y cynnydd yr oeddem yn ei wneud o ran sicrhau economi fwy cynhwysol ac un sy'n edrych tuag at ddiwydiannau'r dyfodol.

Byddwn hefyd yn canolbwyntio'n glir ar ddylanwad Llywodraeth y DU ar yr adferiad yng Nghymru, yn ogystal â'n hysgogiadau ariannol a pholisi ein hunain. Rydym eisoes wedi dangos ein bod yn fedrus iawn wrth ddarparu cymorth ariannol uniongyrchol i fusnesau, ac wrth greu fframwaith sgiliau a hyfforddiant, sydd wedi cael ei roi ar waith ac sy'n ychwanegu gwerth at, er enghraifft, raglen Kickstart y DU. Mae gan Lywodraeth y DU gapasiti cyllidol a gwario mawr i fynd i'r afael â maint yr argyfwng economaidd rydym yn ei wynebu, a byddwn yn parhau i ganolbwyntio'n benodol ar sicrhau ei bod yn darparu'r cyllid angenrheidiol i ategu'r gwaith o ailadeiladu economi Cymru.

O ganlyniad mae gennym genhadaeth glir, foesegol a chydlynol ar gyfer cryfhau ac ailadeiladu'r economi sy'n ymateb i'r argyfwng COVID-19 presennol, ac sy'n rhagweld canlyniadau ymadael â'r UE. Mae'n estyn ar draws yr economi sylfaenol a'r economi fasnachu i ddarparu platfform polisi blaengar ac arloesol tan ddiwedd tymor presennol y Senedd ym mis Ebrill 2021 a'r tu hwnt. Mae wedi'i gwreiddio yng Nghymru ac mae'r dulliau y mae'n

eu cynnwys yn adlewyrchu'r heriau a'r cyfleoedd unigryw rydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Mae ein cenhadaeth hefyd yn ymateb i gyflawni'r Nodau Llesiant ac i'r materion ehangach a thymor hwy rydym yn eu hwynebu, megis mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur, rhoi y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ar waith fydd yn datblygu argymhellion y grŵp economaidd-gymdeithasol Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig Covid 19, gwella profiadau pobl o weithio a sicrhau bod y Gymraeg yn tyfu ac yn ffynnu.

Rhaid i'r genhadaeth hon fod yn genhadaeth a rennir gan bawb, lle mae pob dinesydd a sefydliad yn gallu cydweithio i ailadeiladu economi ffyniannus, werdd a chyfartal.




Ken Skates AS

Gweinidog yr Economi,
Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

Ein Cenhadaeth

Mae'r daith tuag at adfer economi Cymru yn gweithredu'r blaenoriaethau yn y ddogfen Ail-greu ar ôl COVID-19: Yr Heriau a'r Blaenoriaethau (Hydref 2020). Mae'n adeiladu ar sylfeini *Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi*. Lluniodd y cynllun hwn raglen datblygu economaidd sy'n buddsoddi mewn pobl a busnesau ac yn ysgogi ffyniant ac yn lleihau anghydraddoldeb ledled Cymru. Mae'r genhadaeth yn adeiladau ar y cynnydd cynnar rydym wedi'i wneud wrth godi proffil yr Economi Sylfaenol ac ymdrin â'r heriau, gan gydnabod bod angen gwneud rhagor wrth ehangu a rhannu'r dull hwn. Mae pob ymyriad yn ystyried mentrau allweddol eraill, gan gynnwys, Cymru Carbon Isel, Cymraeg 2050, y Cynllun Cyflogadwyedd, y Cynllun Gweithredu ar gyfer Gweithgynhyrchu a'r agenda Gwaith Teg. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n unigryw i Gymru, yn darparu'r fframwaith ar gyfer ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol a'r heriau hirdymor y mae ein pobl a'n planed yn eu hwynebu. Mae wedi llywio ein dull o ailadeiladu gan sicrhau adferiad sy'n seiliedig ar werthoedd. Mae ein cenhadaeth wedi'i halinio'n agos â'n Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol, gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd yn ystod 20 mlynedd o bolisi cydlyniant yr UE, a gosod y llwybrau i, yn y pen draw, ddefnyddio'r cyllid oddi wrth Lywodraeth y DU sydd wedi disodli cyllid yr UE yn rhanbarthol.



Ein bwriad yw creu Cymru lle mai gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yw ein prif ddiben, gan sicrhau adferiad economaidd ffyniannus, gwyrdd a chyfartal sy'n cydnabod bod buddsoddi mewn pobl a lleoedd o'r pwys mwyaf.

Un Weledigaeth


Ein gweledigaeth yw **economi llesiant sy'n ysgogi ffyniant, sy'n amgylcheddol gadarn, ac sy'n helpu pawb i wireddu eu potensial**. Mae wedi'i gwreiddio yn ein cynllun gweithredu ar yr economi presennol, **Ffyniant i Bawb**, gyda'i ddibenion cynyddol o leihau anghydraddoldeb a rhannu cyfoeth a llesiant ledled Cymru. Heb os mae ein llesiant economaidd ynghlwm wrth ein llesiant amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol..

Nid yw'r ymgyrch dros economi llesiant bellach yn ddull sydd ar yr ymylon. Mae'r OECD wedi lansio ei Ganolfan Llesiant, Cynhwysiant, Cynaliadwyedd a Chyfle Cyfartal yn ddiweddar. Mae ein haelodaeth o rwydwaith Llywodraethau Economi Llesiant wedi atgyfnerthu ein lle ar flaen y gad yn y dull blaengar hwn o ymdrin â datblygu economaidd, a bydd ein hymdrechion i ailadeiladu'n dangos ein dylanwad a'n harweinyddiaeth ar yr agenda hon. Byddwn yn cyfrannau at syniadau a thrafodaethau blaengar sy'n dod i'r amlwg yn y maes hwn, gan fewnbynnu ein profiad a'r hyn rydym wedi ei ddysgu o arferion da rhyngwladol.

Tri Chanlyniad

Er mwyn rhoi ein gweledigaeth ar gyfer economi llesiant ar waith, ac i helpu pawb i ddeall beth mae'n ei olygu, mae'n seiliedig ar geisio tri chanlyniad.

Economi **fwy llewyrchus** sy'n gofyn am ffocws cyson ar gydnerthedd a'r gallu i drawsnewid. Byddwn yn cymryd camau i gefnogi'r Economi Sylfaenol a sail economaidd amrywiol, gydgysylltiedig sy'n cynnwys cwmnïau cadarn sy'n edrych tuag allan sydd â pherfformiad arloesi cadarnhaol, lefelau cynhyrchiant da a gweithlu ymrwymedig ac wedi'i rymuso sydd â'r sgiliau ar gyfer byd sy'n newid.



Economi wyrddach sy'n mynnu lefelau uchel o ailgylchu, lle mae adnoddau'n cael eu defnyddio dro ar ôl tro, gan ychwanegu gwerth economaidd, a lle mae gwastraff yn cael ei osgoi. Gall hyn greu cyfleoedd ar gyfer swyddi a sgiliau mewn diwydiannau newydd – o ynni adnewyddadwy i atgyweirio. Mae'r economi hon yn rhan annatod o gymdeithas carbon isel, felly byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith carbon isel sy'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, atebion sy'n seiliedig ar natur, prosiectau ynni adnewyddadwy a chartrefi cynaliadwy.

Economi fwy cyfartal sy'n golygu buddsoddi ym mhotensial cynhyrchuol pob aelod o gymuned, gan sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ei ôl. Byddwn yn meithrin uchelgais, yn annog dysgu am oes ac yn cefnogi pobl i wireddu eu llawn potensial, lle mae gwaith yn foddhaus ac yn fuddiol.

Bydd ein dull rhanbarthol yn sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu rhannu'n deg i gyflawni canlyniadau tecach, a byddwn yn parhau i fynnu a hyrwyddo gwaith teg.



Mae Grafmarine (y Ganolfan OpTIC yn Llanelwy) yn datblygu system cynhyrchu ynni solar a storio trydan integredig ar gyfer unrhyw arwyneb gwastad i greu a storio ynni.

Pum Llusern

Mae ein gweithgareddau yn canolbwyntio ar **bum llusern** ar gyfer goresgyn COVID-19, a sicrhau adferiad tymor canolig a thymor hwy. Nid yw'r llusernau'n brosiectau annibynnol. Yn hytrach maent yn gyfuniad o ymyriadau y byddwn yn eu defnyddio i ategu ein dull ar gyfer adfer yr economi. Mae pob un yn adeiladu ar sut rydym wedi addasu ein polisiau a'n hymyriadau'n gyflym ac mewn modd hyblyg i fynd i'r afael â'r heriau a achoswyd gan y pandemig, ac yn gweithio tuag at wireddu ein gweledigaeth ar gyfer Cymru a chanddi economi sy'n seiliedig ar lesiant. Mae ein hymrwymiad i greu lleoedd, ailadeiladu gwyrdd a gwaith teg, wedi'i ategu gan fuddsoddi mewn pobl a thrawsnewid digidol, yn rhan annatod o bob un ohonynt.

Dyma nhw:

- Atgyfnerthu'r Economi Sylfaenol
- Ymrwymiad COVID i ddiogelu a galluogi sgiliau a swyddi
- Cyflymu ymaddasu ar gyfer adfer a ffyniant yn y dyfodol
- Magneteiddio buddsoddiadau mewn adferiad gwyrdd
- Atgyfnerthu'r ymdrech i sicrhau gwerth cymdeithasol



Atgyfnerthu'r Economi Sylfaenol



Ymrwymiad COVID i ddiogelu a galluogi sgiliau a swyddi



Cyflymu ymaddasu ar gyfer adfer a ffyniant yn y dyfodol



Magneteiddio buddsoddiadau mewn adferiad gwyrdd




Atgyfnerthu'r ymdrech i sicrhau gwerth cymdeithasol

Mae gan bob un ddiben integreiddio sy'n estyn ar draws y Llywodraeth ac maent yn cynnwys gweithio'n agos gyda phartneriaid cymdeithasol, gan adeiladu ar berthnasau cryf sydd wedi datblygu dros y misoedd diwethaf.

Atgyfnerthu'r Economi Sylfaenol

Mae argyfwng COVID wedi gael gwared ar unrhyw amheuaeth ynghylch rôl hanfodol yr Economi Sylfaenol wrth sicrhau llesiant ein gwlad. Dyma'r rhan o'r economi yr roedd yn rhaid iddi barhau i weithredu, am ei bod yn darparu seilwaith bywyd bob dydd, gan ddiwallu anghenion pob dydd ein cartrefi, a'n cadw ni i gyd yn ddiogel ac yn waraidd.

Rydym wedi hyrwyddo rôl yr Economi Sylfaenol, gan geisio cydbwysedd mwy effeithiol rhwng y ffocws ar yr economi fasnachu gystadleuol a'r economi sylfaenol nad yw, at ei gilydd, yr un mor gystadleuol, sy'n darparu'r nwyddau a'r gwasanaethau pob dydd sydd eu hangen er mwyn inni fyw ein bywydau, a hynny mewn modd cynaliadwy. Ond mae nifer o rwystrau o hyd, o ran strwythur ac agweddau, sy'n ein hatal rhag gwireddu'r dull hwn. Byddwn yn atgyfnerthu'r Economi Sylfaenol i helpu cymunedau i gynyddu eu gallu i wrthsefyll sgil-ffeithiau economaidd y pandemig a gadael yr Undeb Ewropeaidd.



Wyn Griffiths a Rhys Gwilym yn gwneud feisors PPE yn M-SParc, Gaerwen, Ynys Môn. Diolch i Kristina Banholzer.

Cynyddu arferion da yn yr Economi Sylfaenol

Yn cael ei anwybyddu yn rhy aml ym maes datblygu economaidd, dyma'r rhan o'r economi sy'n darparu hanfodion bywyd pob dydd fel trydan, dŵr, gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ôl amcangyfrifon gan y Ganolfan Ymchwil ar Newid Economaidd-ddiwylliannol mae'r Economi Sylfaenol yn cyfrif am tua phedair swydd o bob deg a thua £1 o bob £3 sy'n cael ei wario gan aelwydydd yng Nghymru. Mae'n darparu'r swyddi sydd wrth wraidd cymunedau lleol ar draws sectorau fel gofal a gwasanaethau iechyd, gofal plant, bwyd, tai, ynni, adeiladu, gwastraff ac ailgylchu.

Mae pobl yn dibynnu ar y gwasanaethau a'r cynhyrchion hyn – maent yn hanfodol wrth greu Cymru o gymunedau cydlynus sy'n ddeniadol, yn ddiogel, yn hyfyw ac wedi eu cysylltu'n dda. Mae gofal cymdeithasol yn chwarae rôl hanfodol yn yr economi, gan helpu'r rheini a chanddynt gyfrifoldebau gofal i gael swyddi, i ddychwelyd i'r gwaith neu i gadw eu swyddi. Mae'r sector ei hun hefyd yn darparu nifer cynyddol y gyfleoedd cyflogaeth. Yn ôl ymchwil ddiweddar*, y sector gofal cymdeithasol yw'r seithfed cyflogwr mwyaf yng Nghymru, gan gyfrannu £2.2bn at economi Cymru.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ymgorffori'r Economi Sylfaenol ar draws pob rhan o Lywodraeth Cymru,

gan dangos arweinyddiaeth i sector cyhoeddus ehangach Cymru, ac egluro ei bod yn flaenoriaeth drawsbynciol.

Drwy Gronfa Her yr Economi Sylfaenol rydym wedi cefnogi partneriaid i arbrofi a chynnig atebion arloesol i broblemau ystyfnig o fewn yr Economi Sylfaenol. Byddwn yn defnyddio rhwydweithiau sydd eisoes yn bodoli, fel y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, i ledaenu ac i gynyddu canlyniadau cadarnhaol o'r Gronfa Her, er mwyn sicrhau bod manteision defnyddio'r dulliau newydd hyn yn cael eu lluosu yn gyflym ac ar raddfa fawr, er budd cymunedau ledled Cymru.

Byddwn yn cefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i weithredu rhaglenni caffael ar sail perthynas sy'n bodloni blaenoriaethau cynlluniau llesiant lleol. Bydd y cynlluniau yn canolbwyntio ar ddulliau newydd o weithredu sy'n canolbwyntio ar gyfran fwy o gaffael cyhoeddus, gan greu cadwyni cyflenwi yng Nghymru sy'n gryfach ac yn fwy cadarn, a fydd, mewn llawer o achosion, yn cynnig nwyddau a gwasanaethau carbon is. Rhoddir sylw penodol i gefnogi mentrau cymdeithasol, sefydliadau dan reolaeth cyflogeion a busnesau bach a chanolig sydd wedi ymwreiddio yn eu cymunedau i ddefnyddio caffael cyhoeddus, gan helpu i gynnal a chreu cyfleoedd lleol ar gyfer swyddi, gan arwain at gymunedau iachach.

Mae sefydliad angor yn un sydd, ochr yn ochr â'i brif swyddogaeth, yn chwarae rôl arwyddocaol mewn lleoliad drwy wneud cyfraniad strategol i'r economi lleol, fel ysbytai, prifysgolion a chynghorau lleol. Rydym yn gweithio gyda GIG Cymru i sefydlu egwyddorion a gweithgareddau'r Economi Sylfaenol ar draws pob maes cyflawni. I ddechrau bydd hyn yn canolbwyntio ar gaffael bwyd, sy'n sector economaidd â blaenoriaeth, ac ar atgyfnerthu cadwyni cyflenwi hir, ansicr sy'n cyflenwi nwyddau hanfodol fel Cyfarpar Diogelu Personol. Mae bwyd yn sector â blaenoriaeth yn yr economi, a gallai cynyddu cyfran y cynnyrch lleol yn ein cadwyni cyflenwi sector gyhoeddus arwain at gyfleoedd ar gyfer datblygu busnesau canolig yn y sector hwn.

Byddwn yn bwydo dadansoddiadau o ddata ar wariant a blaenoriaethau gwariant ar gyfer y dyfodol i'n gwaith o gefnogi busnesau i ddatblygu, er mwyn datblygu gallu busnesau brodorol i gystadlu am gontractau newydd ac i lenwi bylchau yn y cyflenwad, i sicrhau bod gwariant sy'n mynd y tu allan i Gymru ar hyn o bryd yn cael ei ailgyfeirio i'n heconomi a'n cymunedau.

Ochr yn ochr â'r gweithgareddau neilltuedig hyn mae'r Economi Sylfaenol wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn y dull ar gyfer ailadeiladu'r economi. Nid yn unig mae buddsoddi mewn gofal cymdeithasol, gofal plant, tai, ynni a thechnoleg carbon isel, a thechnoleg ddigidol yn darparu'r pethau sydd eu hangen i sicrhau bywyd gwaraidd yng Nghymru, mae hefyd yn gallu cynnig gyrfaedd ystyrlon a boddhaus a chael ei harneisio ar gyfer datblygu economaidd.

* https://socialcare.wales/cms_assets/file-uploads/The-Economic-Value-of-the-Adult-Social-Care-Sector_Wales.pdf

Canol Trefi

Mae cyflwr trist llawer o ganol trefi yn galw am weithredu brys. Fel rhan o'n hagenda Trawsnewid Trefi, mae'r Egwyddor Canol Trefi'n Gyntaf yn dangos rôl y sector cyhoeddus fel catalydd i anadlu bywyd a phwrpas newydd i strydoedd lleol. Ond nid yw wedi'i chyfyngu i'r sector cyhoeddus. Rydym yn gwybod nad ydym bellach yn gallu dibynnu ar fanwerthu yn unig. Felly, rhaid inni sicrhau ein bod yn defnyddio cyfleoedd i fod yn greadigol er mwyn dod â swyddi'n ôl i ganol ein trefi fel rhan o amrediad ehangach o weithgareddau a defnyddiau, gan gynnwys hamdden, dysgu, gwasanaethau lleol a gweithgareddau diwylliannol. Mae cyfle i ailbwrpasu adeiladau i greu mannau cyd-weithio ac annog sgiliau gwyrdd newydd a chyfleoedd fel caffis trwsio, manwerthu ailddefnyddio ac ail-lenwi ac arloesedd ail-wneud i anadlu bywyd yn ôl i ganolfannau siopa sy'n ei chael yn anodd. Bydd creu mannau gwyrddach mewn trefi lle mae ansawdd yr aer yn well, o fewn cymdogaethau sydd addas ar gyfer cerdded o le i le, yn helpu'r Economi Sylfaenol i ffynnu a sicrhau bod anghenion y gymuned yn cael eu diwallu'n lleol.

Mae ein cynllun strategol '*Croeso i Gymru: Blaenoriaethau ar gyfer yr economi ymwelwyr 2020-2025*' yn cyfeirio at ganol trefi ac adfywio cymunedol lleol - drwy greu cychfannau lleol sy'n adlewyrchu cymeriad, atyniadau a chyfleusterau unigryw y bydd ymwelwyr y dyfodol yn chwilio amdanynt.


Bydd y creadigrwydd a'r ailbwrpasu hwn yn hanfodol i ddenu pobl yn ôl i ganol trefi gwag, i adfer eu bywiogrwydd, i'w hailgysylltu â'r cefn gwlad o'u hamgylch – wedi'u cefnogi gan deithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy. Rhaid inni sicrhau bod effeithiau cadarnhaol y pandemig yn parhau – fel llai o draffig, tagfeydd ac allyriadau, a rhaid i ganol trefi yfory fod yn wyrdd ac yn lân, mannau sy'n ddeniadol i fyw a gweithio ynddynt ac i ymweld â nhw.

Ein huchelgais hirdymor yw i 30% o weithwyr Cymru weithio'n hyblyg ac o bell, er mwyn helpu i sbarduno adfywio a gweithgarwch economaidd mewn cymunedau. Byddwn yn datblygu canolfannau cyd-weithio rhanbarthol yng nghanol trefi ac, fel llywodraeth sy'n arwain y ffordd, yn adleoli ein gweithlu ein hunain a'i symud o'r prif ganolfannau yn ôl i ganol trefi. Bydd hyn hefyd yn dod â newidiadau cadarnhaol i ddiwylliant gwaith Cymru drwy cynyddu cynhyrchiant gweithwyr yn ogystal â'u cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

Cynhwysiant Digidol

Rydym yn creu strategaeth ddigidol i Gymru oherwydd ein bod am i bobl yng Nghymru elwa ar wasanaethau cyhoeddus modern, effeithlon a symlach, ac ar yr un pryd ysgogi arloesedd yn ein heconomi a chefnogi canlyniadau heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Rydym yn gwybod bod cyfran fawr o bobl ledled Cymru nad ydynt yn hyderus ynghylch technoleg ddigidol – naill ai nid ydynt yn defnyddio'r rhyngwrdd yn bersonol, nid oes ganddynt y sgiliau digidol sylfaenol i gael



mynediad at wasanaethau a gwybodaeth hanfodol ac efallai nad oes ganddynt fynediad at ddyfais a/neu gysylltiad. Fel Llywodraeth byddwn yn gweithio i sicrhau nad oes yn un dinesydd yn cael ei adael ar ei ôl wrth inni fabwysiadu dull sy'n rhoi blaenoriaeth i dechnoleg ddigidol, a bydd cynhwysiant digidol wrth wraidd popeth rydym yn ei ddarparu. Mae angen i'n dinasyddion fod yn hyderus ynghylch technoleg ddigidol, fel y gallant fanteisio ar y dechnoleg hon ac elwa ar ein buddsoddiadau mewn arloesi digidol.

Byddwn hefyd yn darparu rhaglen seilwaith digidol fawr a buddsoddi i gefnogi canolfannau gweithio aml-le. Byddwn yn galluogi'r newid hwn drwy gyflymu'r gwaith ar fynediad at fand eang drwy roi hwb i'n Rhaglen Band Eang Cyflym lawn a datblygu dulliau newydd o ategu cysylltedd symudol a mynediad cyffredinol at ddarpariaeth TG.

Caffael Cyhoeddus

Mae rhyw 48% o gyllideb flynyddol GIG Cymru sy'n gysylltiedig â bwyd, sy'n werth £22 miliwn, yn cael ei wario y tu allan i Gymru. Mae rhannau helaeth o gadwyn gyflenwi'r sector cyhoeddus lle mae i'w gweld fel pe bai'r arian sy'n cael ei wario'n aros yng Nghymru, ond mewn gwirionedd mae'r tarddiad y tu allan i Gymru. Mae gennym gyfle i weithio gyda'n cyflenwyr i ddatblygu cadwyni cyflenwi byrrach yng Nghymru a chadw gwerth yn ein heconomi genedlaethol. Mae'r gwaith hwn ar gadwyni cyflenwi yn elfen allweddol o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Gweithgynhyrchu, gan y bydd

yn rhoi cyfleoedd i gynhyrchu rhagor o ddeunyddiau crai, cydrannau a nwyddau gorffenedig yng Nghymru, a'u cyflenwi nhw i'r sector cyhoeddus.

Fel rhan o'n gwaith yn cefnogi'r Economi Sylfaenol mae pob categori o wariant gan y sector cyhoeddus yng Nghymru yn cael ei ddadansoddi am y potensial i'w arallgyfeirio i gefnogi economïau lleol a rhanbarthol. Byddwn yn atgyfnerthu'r proffesiwn caffael ac yn cefnogi trawsnewid cadwyn gyflenwi Cymru er mwyn galluogi busnesau bach a chanolig i fanteisio ar y cyfle hwn.

Arfor

Mae Rhaglen Arfor (2019–2021) yn darparu'r sail ar gyfer amrediad o brosiectau arloesol yng Ngheredigion, Gwynedd, Sir Gaerfyrddin ac Ynys Môn. Mae'n rhoi pwyslais ar ddatblygu'r seilwaith economaidd, gyda'r nod o hefyd hybu'r Gymraeg drwy ddarparu cyfleoedd economaidd mewn cymunedau lle mae canran uchel o siaradwyr Cymraeg, neu mewn trefi sy'n gwasanaethu'r cymunedau hynny. Mae'r rhaglen wedi cefnogi busnesau ac wedi ysgogi unigolion i fentro am y tro cyntaf. Mae hefyd wedi datblygu prosiectau sy'n cefnogi entrepreneuriaeth ieuenctid fel Llwyddo'n Lleol, prosiect sy'n darparu cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu syniadau busnes ac yn eu cefnogi ar eu ffordd. Mae Her Cymunedau Mentrus, prosiect sy'n cael ei gyflawni drwy Arfor, hefyd yn gweithio gyda thair cymuned, gan gynnig cyfleoedd newydd i ddatblygu syniadau a fydd yn cylchredeg arian o fewn eu cymunedau ac yn creu swyddi.

Yr ymateb i argyfwng COVID-19: Cyflenwi cyfarpar diogelu personol (PPE)

Mae'r profiad o gaffael PPE yn ystod y pandemig wedi dysgu gwersi pwysig inni a fydd yn ddefnyddiol wrth inni ddechrau ar y gwaith ailadeiladu. Drwy gydweithio, gwnaeth Cydwasanaethau'r GIG a Llywodraethau Lleol waith rhagorol wrth sicrhau cyflenwadau a'u dosbarthu i'r mannau lle roedd eu hangen. Erbyn hyn mae gennym stociau sylweddol o bob math o PPE. Hefyd cododd busnesau Cymru i'r her o ailwrpasu i gyflenwi PPE i weithwyr rheng flaen.

Dangosodd yr argyfwng hefyd ansicrwydd y gadwyn gyflenwi fyd-eang a'r cyfleoedd economaidd sy'n gysylltiedig â chaffael cynhyrchion pob dydd sy'n cael eu mewnfario ar hyn o bryd o ffynonellau domestig. Wrth sicrhau cyflenwadau o'r PPE sy'n rhoi mwy o gydnerthedd i GIG Cymru, gallwn hefyd helpu rhagor o gwmnïau lleol i dyfu. Mae Cynllun Gaeaf PPE ar gyfer y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn cynnwys ymrwymiad i archebu cyfran o Fasgiau Math IIR gan weithgynhyrchwyr yng Nghymru, ac mae cyfleoedd da i gaffael rhagor o gynhyrchion PPE o ffynonellau domestig yn y dyfodol.

Ymrwymiad COVID i ddiogelu a galluogi sgiliau a swyddi

Mae cyflogadwyedd a chefnogi sgiliau yn hollbwysig mewn cyfnodau o ansicrwydd economaidd, ac mae'n amlwg bod y pandemig Covid-19 yn bygwth i ddadwneud y cynnydd a wnaethpwyd i leihau diweithdra a segurdd economaidd yng Nghymru dros y ddegawd ddiwethaf. Gan weithio ar draws Llywodraeth, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gefnogi pobl ledled Cymru i waith heddiw, tra hefyd yn paratoui'r gweithlu am yr heriau sydd ar hyn o bryd a heriau hirdymor y dyfodol fel a amlinellir yn Ail-greu ar ôl COVID-19: Yr Heriau a'r Blaenoriaethau a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Ein nod yw creu unigolion gwydn sydd meddu ar y sgiliau, y brwdfrydedd, yr ysgogiad a'r creadigrwydd i wireddu eu potensial mewn byd sy'n newid yn gyflym, lle nad yw gallu, cefndir, rhyw nac ethnigrwydd yn rhwystr i sicrhau gwaith teg.

Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo'n gryf i gefnogi pobl i gael mynediad at hyfforddiant, addysg uwch ac addysg bellach, gan arwain at gael a chadw gwaith

teg neu hunangyflogaeth, gan sicrhau parhad ar gyfer dysgu a dilyniant yn y farchnad lafur ar yr adeg gritigol hon.

Gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghyfarfartedd economaidd a chefnogi'r rhai hynny yr effeithiwyd arnynt waethaf gan yr argyfwng Covid – yn enwedig pobl ifanc, y rhai hynny mewn gwaith sydd â chyflog isel ac sy'n ansicr, cymunedau o leiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau.


Ymrwymiad COVID

Byddwn yn parhau i roi cymorth hanfodol i bobl a allai fod wedi colli eu swydd neu eu cyfle hyfforddi oherwydd y pandemig, i helpu pobl i ddatblygu sgiliau newydd sy'n addas at y dyfodol ac i ddod o hyd i waith newydd.

Bydd pobl ifanc yn cael eu cefnogi i barhau i ddysgu, magu sgiliau hanafodol ar gyfer gwaith, dechrau dysgu yn seiliedig ar waith, neu ymuno â'r gweithlu am y tro cyntaf.

Bydd cyflogwyr yn cael ein cefnogaeth i recriwtio talent newydd, cadw ac uwchsgilio eu gweithlu presennol a gwella iechyd a lles yn y gweithle.

Ein haddewid "Ymrwymiad Covid" yw sicrhau bod unrhyw un dros 16 oed yng Nghymru yn gallu cael gafael ar gyngor a chymorth i ddod o hyd i waith,



Prentis Nikita Williams yn Capgemini

mynd ar drywydd hunangyflogaeth neu ddod o hyd i le mewn addysg neu hyfforddiant, wedi'i dargedu at unigolion ym marchnad lafur Cymru sydd fwyaf tebygol o gael effaith negyddol. Mae cyfres o fesurau yn sail i'r ymrwymiad.

Yn ogystal, mae prifysgolion a cholegau'n cael eu cefnogi i gynnal addysgu, dysgu a sgiliau, gan gynnwys cymorth wedi'i dargedu i alluogi sefydliadau i ddarparu dysgu cyfunol ac ar-lein yn ystod y pandemig.

Mae cymorth i unigolion yn cynnwys:

- Ehangu gwasanaethau rheng flaen i bobl 16+ o fewn Cymru'n Gweithio a Chymunedau am Waith a Mwy i roi cyngor ac arweiniad, cynorthwyo i baru cyfranogwyr â chyfleoedd marchnad lafur lleol, cefnogi chwilio am swydd, sgiliau cyflogadwyedd a hyfforddiant.
- Ehangu'r ddarpariaeth mentoriaid drwy Raglenni Cyflogadwyedd Cymunedol ar gyfer unigolion di-waith sydd angen cymorth mwy dwys wedi'i deilwra, gydag atgyfeirio ymlaen, lle y bo'n briodol, at y cynnig cyflogadwyedd ehangach gan gynnwys gwasanaethau'r Adran Gwaith a Phensiynau.



Chwith i'r Dde: Nicky Blake, Rheolwr Gyfarwyddwr High Precision Wales gyda phrentis, Manmeet Singh sy'n gwneud NVQ lefel 3 mewn Gweithgynhyrchu Peiranyddol.

- Hwb i ***gymorth ailhyfforddi*** i'r gweithlu presennol ddod o hyd i gyflogaeth newydd neu well, newid sectorau a galwedigaethau, a chael mynediad at ystod ehangach o gyfleoedd gwaith mewn meysydd lle mae galw am sgiliau drwy gyflwyno Rhaglen y Cyfrif Dysgu Personol, ReAct, y Pecyn Cymorth Sgiliau Ar-lein a'r Gronfa Ddysgu Undebau Cymru.
- Cymhellion cyflogwyr newydd o hyd at £3,000 i annog cyflogwyr i greu cyfleoedd Prentisiaeth, ***i bobl o bob oed*** ddysgu ac ymgymryd â chymwysterau tra'n ennill cyflog.
- ***Cymorth cyflogadwyedd hanfodol a phrofiad gwaith i bobl ifanc 16-18 oed*** drwy'r Rhaglen Hyfforddeiaeth. Yn ogystal â chymorth i fwy o raddedigion gael profiad gwaith, sesiynau blasu gwaith a lleoliadau gwaith â thâl pan fyddant yn gadael y Brifysgol drwy Go Wales.
- ***Cwnsela a arweinir gan iechyd a gwasanaethau therapiwtig*** i'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddi-waith oherwydd problemau cyhyrsgerbydol neu iechyd meddwl gyda chymorth mentora cymheiriaid estynedig i'r rhai sy'n ddi-waith sydd â phroblemau iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau o ganlyniad i Covid-19.
- Mae cronfa rhwystrau hunangyflogaeth newydd, sy'n cynnig hyd at £2,000 i gefnogi busnesau newydd ar gael drwy Busnes Cymru.

Mae cymorth i Gyflogwyr yn cynnwys:

- ***Cymorth recriwtio*** newydd a chymhellion i gefnogi cyflogi Prentisiaid ifanc 16-24 oed, i annog ail-gyflogi prentisiaid a ddiswyddwyd, a Phrentisiaethau Cyflogwyr a Rennir a yrrir gan y sector.
- Cymorth hyfforddi i gyflogwyr uwchsgilio a datblygu eu pobl drwy Gronfa Ddysgu Undebau Cymru, ynghyd â phrosiectau partneriaeth penodol gyda'r diwydiannau creadigol, lletygarwch a thwristiaeth, lled-ddargludyddion, peirianeg uwch, gweithgynhyrchu a digidol drwy'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg a Phrentisiaethau Gradd.
- Cymorth penodol i helpu i ***recriwtio a chadw Pobl Anabl***. Bydd chwe Hyrwyddwr Cyflogaeth Pobl Anabl yn ymgysylltu ag arweinwyr busnes ledled Cymru i ysbrydoli, arwain a chychwyn y newid sydd ei angen i gau'r bwlch cyflogaeth. Bydd pecyn cymorth i gyflogwyr yn arwain cyflogwyr drwy'r daith recriwtio o achos busnes i gadw, chwalu mythau ar hyd y ffordd, yn ogystal â chyflwyno modiwl e-ddysgu ar y model cymdeithasol o anabledd.
- Cymorth ar gyfer ***Lles yn y Gweithle*** drwy ehangu'r Gwasanaeth Cymorth Mewn Gwaith. Mae'n darparu mynediad cyflym at ffisiotherapi, seicotherapi a chymorth galwedigaethol i bobl â chyflyrau iechyd meddwl a chorfforol,

ac mae'n chwarae rhan hanfodol i helpu'r rhai sydd ar absenoldeb oherwydd salwch i ddychwelyd i'r gwaith yn gyflymach, gan gefnogi cadw gweithwyr a lleihau absenoldeb i'r rhai sydd mewn perygl o ddiweithdra. Yn ogystal â hyfforddiant i fusnesau i'w helpu i wella eu harferion, eu harweiniad a'u polisiâu lles yn y gweithle, gydag adnoddau newydd i helpu i gefnogi'r heriau sy'n wynebu busnesau a staff ar ffyrlo.

- Cymorth i gyflogwyr a gweithwyr drwy wasanaeth Cymru lach ar Waith, sy'n darparu lleoliad un stop ar gyfer canllawiau ac adnoddau sy'n gysylltiedig â COVID-19 i gefnogi ***amgylcheddau gwaith diogel***, pecyn cymorth pwrpasol i gyflogwyr o ran iechyd meddwl ac effeithiau COVID-19, gydag ymgrych Amser i Newid Cymru yn helpu pobl i wynebu sgysiaau anodd am iechyd meddwl a stigma yn y gweithle.

Edrych ymlaen:

Byddwn yn bwrw ymlaen â'n diwygiadau i'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, ac yn cynnal ein bwriad i gyflwyno Bil Addysg ac Ymchwil Trydyddol yn gynnar yn nhymor newydd y Senedd. Byddwn yn gweithio gyda'r sector i wireddu ein gweledigaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer addysg drydyddol, gan ymateb i heriau'r dyfodol ar hyn o bryd a thymor hwy sydd wedi'u trawsnewid gan y pandemig. Byddwn yn sicrhau dull mwy strategol, cydlynol ac effeithlon o oruchwyllo addysg drydyddol ac ymchwil, o dan un Comisiwn, gyda chylch gwaith clir i lunio system sy'n gweithio i bobl Cymru ac economi Cymru.

Bydd caffael yn mynd yn fyw ar gyfer Twf Swyddi Cymru newydd yn gynnar yn 2021. Bydd y rhaglen newydd yn darparu dull cyfannol o helpu pobl ifanc i baratoi ar gyfer byd gwaith a'i brofi, yn ogystal â chefnogi cyflogwyr i gyflogi phobl ifanc.


Rydym yn ailedrych ar ein cynlluniau cyflogadwyedd eraill ac mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda i ddatblygu rhaglen newydd i ddarparu cymorth i bobl dros 18 oed i oresgyn rhwystrau i waith, a mynd i gyflogaeth gynaliadwy o safon. Felly, rydym yn gwneud mwy i ddeall effeithiau Coronafeirws ar y farchnad lafur, a chanolbwyntio ar y ffordd orau o gefnogi'r grwpiau mwyaf difreintiedig ac ymylol.

Mae cyflogaeth ac incwm yn thema flaenoriaeth yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol sydd ar ddod a byddwn yn gweithio gyda chymunedau lleiafrifoedd ethnig i ddatblygu camau ystyrlon o fewn y cynllun hwnnw sy'n mynd i'r afael â materion cyflogaeth sy'n gysylltiedig ag effaith anghymesur y pandemig ochr yn ochr â'r anfantais gynhenid a achosir gan hiliaeth strwythurol a systemig.

Bydd ein cefnogaeth yn seiliedig ar strategaeth gyrfa Cymru newydd a fydd yn sicrhau y darperir gwasanaeth cyfarwyddyd gyrfa a hyfforddiant dwyieithog, cynhwysol a diduedd i bobl Cymru. Cefnogi pobl ifanc ac oedolion i bontio'n gadarnhaol i ddysgu a gweithio, gan ddeall y sgiliau sydd eu hangen i lwyddo yn y farchnad lafur a chyfrannu at economi Cymru yn y dyfodol. Yn ogystal â datblygu eu gwaith gyda chyflogwyr, darparwyr hyfforddiant ac entrepreneuriaid i ddeall eu gofynion sgiliau a'u cyfleoedd i bobl ifanc ac oedolion.

Ochr yn ochr â hyn rydym yn parhau i fynd i'r afael â rhwystrau i gael gwaith fel gofal plant fforddiadwy o ansawdd uchel. Mae gan ein Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch gyllid eisoes ar waith i helpu rhieni i dalu costau gofal plant i'w galluogi i astudio.

Mae ein Cynnig Gofal Plant i Gymru yn darparu 30 awr o ddarpariaeth addysg gynnar a gofal plant i rieni plant 3 a 4 oed sy'n gweithio ac rydym wrthi'n ystyried a ddylid ymestyn hyn i rieni mewn addysg a hyfforddiant ai peidio.



Galluogi adferiad gwyrdd a theg

Disgwylir i gyfleoedd ym **maes iechyd a gofal cymdeithasol** barhau i gynyddu o ran y galw yn y dyfodol. O'r herwydd, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru, ein rheoleiddiwr gweithlu gofal cymdeithasol, yn parhau i gefnogi pobl sydd â'r gwerthoedd cywir i'r sector. Mae ymgyrch 'Gofalwn. Cymru' yn arddangos rolau a gyrfaodd ym maes gofal cymdeithasol. Mae porth swyddi newydd yn cefnogi recriwtio a chadw staff yn y sector, er mwyn rhoi blas i bobl o sut brofiad yw gweithio mewn rôl gofal. Mae'r porth swyddi hefyd yn rhoi cyfle i bobl ymgymryd â hyfforddiant sylfaenol i'w hatodi i'w ceisiadau i gyflogwyr eu gweld cyn eu cyfweld drwy nodwedd newydd 'Cwestiwn Gofal'.

Mae gan sgiliau a chyflogadwyedd rôl allweddol i'w chwarae o ran ategu uchelgeisiau Datgarboneiddio Cymru. Yr her i'r Llywodraeth a chyflogwyr fel ei gilydd yw uwchsgilio'r gweithlu presennol ac ehangu'r gweithlu mewn **sectorau twf gwyrdd**.

Mae buddsoddi mewn tai carbon isel ar raddfa fawr ac uwchraddio stoc tai, yn enwedig tai cymdeithasol, yn debygol o fod yn elfen ganolog o adferiad i gynyddu effeithlonrwydd ynni cartrefi Cymru, lleihau tloidi tanwydd a chreu swyddi. Wrth ymateb i Adroddiad Tasglu Adferiad Gwyrdd y Gweinidog, rydym yn cydnabod y bydd optimeiddio rhaglenni presennol, addasu'r hyfforddiant a darparu mwy o ran carbon isel yn hollbwysig.



Gallai annog gwirfoddoli ieuenctid mewn meysydd fel **adfer natur** ddarparu cyfleoedd i feithrin sgiliau, cyfalaf cymdeithasol a dynol, a rhoi ymdeimlad o bwrpas a gallu i bobl ifanc wneud gwahaniaeth ar y materion y maent yn poeni amdanynt – yn enwedig yr amgylchedd a chyfiawnder cymdeithasol.

Ychydig dros flwyddyn yn ôl cyhoeddodd yr Athro Phil Brown ei adroddiad terfynol ar effaith arloesi digidol ar yr economi a dyfodol gwaith yng

Nghymru. Er mwyn ymateb i gyflymder a graddfa trawsnewid digidol ac amharu ar ddiwydiant traddodiadol, bydd angen cydweithio â diwydiant er mwyn ymateb i'w gofynion yn y dyfodol i gefnogi datblygu sgiliau digidol a throsglwyddo swyddi, yn enwedig o rannau eraill o'r economi wrth i drawsnewid diwydiannol pellach ddigwydd.

Cyflymu ymaddasu ar gyfer adfer a ffyniant yn y dyfodol

Byddwn yn helpu busnesau i ymateb i heriau deul ymadael â'r UE a COVID-19, yn ogystal â heriau tymor hir yr argyfwng hinsawdd a byd sy'n fwy cysylltiedig yn ddigidol. Er mwyn sicrhau cadernid economaidd mae angen amrediad amrywiol o gwmnïau. Byddwn yn cynyddu nifer a maint y cwmnïau lleol, gan ddarparu mynediad at gyngor a chymorth drwy Fusnes Cymru a Banc Datblygu Cymru, i'w galluogi greu swyddi ac i addasu i'r pedwerydd chwyldro diwydiannol. Bydd hyn yn cynnwys y ffordd rydym yn cefnogi cwmnïau i weithio gyda chlystyrau allweddol i ysgogi meysydd ar gyfer arloesi digidol – nawr ac yn y dyfodol, gan arwain at gyfleoedd i gynyddu nifer y swydd o ansawdd uchel nad ydynt mewn perygl gan awtomeiddio.

Oherwydd yr heriau eithafol y mae'r economi ymwelwyr wedi'u hwynebu o ddechrau'r pandemig, byddwn yn gweithio gyda'r sector twristiaeth a lletygarwch i ddatblygu Cynllun Adfer sy'n eu cefnogi yn y tymor byr gyda'r nod o feithrin gwydnwch, cynaliadwyedd a phroffidioldeb ar gyfer y tymor hir.



Cynllun tai sector preifat yng Nghaerdydd, o dan nawdd Rhaglen Tai Arloesol Llywodraeth Cymru.

Y Gronfa Cadernid Economaidd

Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant y Gronfa Cadernid Economaidd lle mae'r ffocws wedi symud rhwng cymorth ariannol uniongyrchol i adfer a chymorth i ddatblygu, yn unol â'r amgylchiadau. Rydym yn cefnogi busnesau i esblygu i fynd i'r afael â heriau deul COVID-19 ac ymadael â'r UE, wrth eu helpu hefyd i baratoi ar gyfer y dyfodol.

Byddwn yn rhoi ffocws penodol ar greu'r amodau cywir i gynnal, pontio a thyfu'r sail weithgynhyrchu yng Nghymru mewn ffordd sy'n cefnu ar y tanwyddau ffosil roeddem yn dibynnu arnynt yn y gorffennol, drwy ddilyn *Dyfodol Gweithgynhyrchu i Gymru – Framwaith Gweithredu*.

Bydd trydydd cam y Gronfa yn allweddol wrth wneud hyn, gan sicrhau bod cyllid ar gael i fusnesau i ddelio â heriau economaidd COVID-19, a chydabod yr her ychwanegol a ddaw yn sgil ymadael â'r UE. Rydym hefyd yn cydnabod yr effaith emosiynol a meddyliol y mae COVID-19 wedi'i chael, a bydd y Gronfa yn helpu busnesau i addasu wrth iddynt ddatblygu, gan gynnwys darparu hyfforddiant iechyd meddwl a chymorth sgiliau.

Bydd cyllid parod a hyblyg drwy Fanc Datblygu Cymru a chngor gan Fusnes Cymru yn parhau i gefnogi busnesau rheng flaen Cymru.

Economi Gylchol

Mae Cymru yn un o arweinwyr y byd ym maes ailgylchu, ac yn cael ei chydabod fel gwlad lle mae gan gynaliadwydd ran ganolog. Rydym yn cydnabod y cyfleoedd economaidd sy'n bodloni wrth ddefnyddio adnoddau wedi eu hailgylchu ac ychwanegu gwerth atynt, a'r potensial sy'n cael ei gynnig i wella cadernid y gadwyn gyflenwi drwy ddefnyddio dulliau'r economi gylchol wrth inni ddatblygu ein economi.

Mae'n hanfodol bod yr ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur yn cael ei integreiddio ar draws yr holl weithgarwch economaidd, gydag ymrwymiad penodol i symud i economi sy'n fwy cylchol ac effeithlon o ran adnoddau, a newid i gysylltiadau a buddsoddiadau sy'n seiliedig ar economi carbon isel. Mae'r economi gylchol yn cysylltu'n uniongyrchol â'n cyfrifoldeb byd-eang fel gwlad sy'n defnyddio llawer o adnoddau o dramor, sy'n cyfrannu at ddatgoedwigo a llawer o fathau o lygredd – ac amryw problemau amgylcheddol.

Bydd y trafodaeth ynghylch y Cynllun Cyflawni Carbon Isel nesaf yn ffordd o gyflymu'r cynnydd ar ddatgarboneiddio diwydiannol, yn ogystal ag ar strategaeth yr economi gylchol.

Rydym eisoes wedi buddsoddi biliwn o bunnoedd mewn seilwaith gwastraff ac ailgylchu, a byddwn yn parhau i ehangu cyllid ar gyfer seilwaith rhanbarthol ledled Cymru, i sicrhau bod deunyddiau'n cael eu cyflenwi i ddiwallu anghenion busnesau a dinasyddion. Bydd hyn yn cynnwys seilwaith cymunedol fel cyfleusterau trwsio ac ailddefnyddio a'r capasiti i ailbroseu ac ailgylchu rhagor o ddeunyddiau. Bydd hyn yn gweithio i gadw gwerth y deunyddiau hyn yma yng Nghymru, ac yn creu rhagor o gyfleoedd ar gyfer swyddi cadarn drwy gysylltu'n well y broses o gasglu a phrosesu'r adnoddau â'r busnesau a'r mentrau y mae eu hangen arnynt.

Uwchraddio tai

Bydd y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio newydd, sy'n gosod mesurau effeithlonrwydd ynni mewn hyd at 1,000 o gartrefi, yn mynd i'r afael â defnyddio carbon yn ddomestig a thlodi tanwydd, newid ymddygiad o ran effeithlonrwydd ynni, ysgogi sgiliau newydd, hyfforddiant ac arloesedd, a chynyddu capasiti'r gadwyn gyflenwi leol. Bydd y buddsoddi hwn yn gwneud trefi a dinasoedd yn gymunedau iachach a hapusach yn ogystal ag atgyfnerthu sylfeini'r economi. . Bydd hefyd yn ein helpu i ddysgu gwersi wrth inni geisio ymgymryd â'r her ehangach o lawer i ddatgarboneiddio miliynau o adeiladu breswyl a masnachol ledled Cymru.

Byddwn yn buddsoddi mewn adeiladu tai cymdeithasol i ddarparu'r tai fforddiadwy o ansawdd uchel y mae eu hangen yn fawr iawn, ac i roi cyfleoedd i'n hadeiladwyr tai bach a chanolig. Byddwn hefyd yn rhoi hwb i'n cymorth ar gyfer Adeiladwyr Cartrefi Bach i sicrhau bod rhagor o'n cartrefi'n cael eu hadeiladu gan amrywiaeth eang o adeiladwyr cartrefi yng Nghymru i hyrwyddo cystadleuaeth, arloesedd a dewis i ddefnyddwyr. Ochr yn ochr â hyn byddwn yn buddsoddi mewn Dulliau Modern o Adeiladu (MMC) a Gweithgynhyrchu oddi ar y Safle, a'r cadwyni cyflenwi cysylltiedig, a rhoi chymhellion i hyrwyddo'r dulliau hynny, i ddarparu cartrefi o ansawdd uchel sy'n garbon isel ac yn defnyddio ynni'n effeithlon – yn benodol y strategaeth gaffael ar gyfer tai cymdeithasol sy'n symud tuag at gyfran uwch o gartrefi a adeiladwyd mewn ffatrioedd fel y nodir yn ein Strategaeth Dulliau Modern o Adeiladu ar gyfer Tai Cymdeithasol.

Rydym wedi sefydlu Fforwm Adeiladu Cymru yr oedd ei gynllun gweithredu 12 pwynt ar gyfer y tymor byr "Ailgodi Cymru'n Gryfach" yn canolbwyntio ar lif gwaith a llif arian ar gyfer busnesau adeiladu, cefnogi busnesau bach a chanolig, cynyddu'r Economi Sylfaenol a datblygu dyfodol carbon isel. Bydd yn rhoi hyder i fusnesau yn y sector i barhau i gyflogi a hyfforddi pobl, gan symleiddio'r broses o dendro ar gyfer gwaith sector cyhoeddus, a sicrhau

bod y sector yn datblygu systemau diogel i roi mesurau ar waith i gadw pellter cymdeithasol yn y gweithle.

Mentrau cymdeithasol a busnesau dan berchnogaeth cyflogaion yn yr economi llesiant

Byddwn yn rhoi dulliau mwy cydgysylltiedig a ffurfiol ar waith i annog mentrau cymdeithasol a busnesau dan berchnogaeth cyflogaion ar gyfer ein heconomi lleisiant.

Mae menter cymdeithasol yn fusnes y mae eu prif amcanion yn rhai cymdeithasol, ac mae unrhyw elw yn cael ei ailfuddsoddi yn y gymuned – o gymharu a busnesau sy'n seiliedig ar yr angen i wneud cymaint o elw ag y bo modd ar gyfer cyfranddalwyr a pherchnogion. Mae pwrpas cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd neu ddiwylliannol wrth wraidd popeth y maent yn ei wneud. Maent yn helpu i adeiladu economïau lleol, gan sicrhau bod cyfoeth ac adnoddau'n cael eu creu a'u hailfuddsoddi mewn cymunedau lleol.

Mae mentrau cymdeithasol yng Nghymru yn rhan weithredol o'r mudiad rhyngwladol, gan adeiladu economi decach, fwy cynhwysol a chynaliadwy. Erbyn 2019 roedd y sector menter gymdeithasol yng Nghymru eisoes wedi tyfu i gynnwys 2,000 o fentrau cymdeithasol yn cyflogi 55,000 o bobl ac yn cyfrannu dros £3bn at yr economi*. A hwythau

* wales.coop/wp-content/uploads/2019/06/Mapping-the-Social-Business-Sector-in-Wales_Executive-Summary-BILINGUAL-DIGITAL-VERSION-JUNE-2019.pdf

yn elfen bwysig a deinamig o'r economi, maent yn darparu gwasanaethau hanfodol, swyddi, hyfforddiant a chyfleoedd gwirfoddoli mewn cymunedau ledled Cymru.

Rydym yn bwriadu helpu i ailadeiladu, cynyddu ac atgyfnerthu'r sector menter gymdeithasol, i sicrhau mai dyna'r model a ffefrir yn naturiol gan entrepreneuriaid sy'n darparu atebion i heriau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Mae busnesau dan berchnogaeth cyflogaion yr un mor bwysig â modelau eraill wrth helpu i adeiladu ein heconomi llesiant. Mae berchnogaeth cyflogaion yn fecanwaith profedig ac effeithiol ar gyfer lleihau anghydraddoldeb o ran cyfoeth, gan ennyn diddordeb cyflogaion a chynyddu cydnherthedd rhanbarthol. Mae busnesau dan berchnogaeth cyflogaion yn elwa ar alinio'r buddiannau a grëir, am fod pawb yn meddu ar ran o'r busnes ac yn cael dweud eu dweud. Mae'r "difidend perchnogaeth" yn arwain at berfformiad sylweddol gryfach, cadernid masnachol gwell a rhagor o gynhwysiant, am fod y buddion yn cael eu rhannu a'u hailfuddsoddi mewn cymunedau lleol. O ganlyniad i'w strwythur perchnogaeth eang, mae busnesau dan berchnogaeth cyflogaion wedi eu hymwreiddio yn eu cymuned.

Mynediad at gyllid

Bydd Banc Datblygu Cymru yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o gefnogi ac annog yr addasu hwn, gan dargedu cyllid sy'n mynd i'r afael â'r cyfleoedd a'r heriau sy'n gysylltiedig â COVID-19 a Brexit. Mae Banc Datblygu Cymru yn sefydliad datblygu economaidd bwysig a byddwn yn gweithio law yn law i wneud y mwyaf o'r cyfraniad y gall ei wneud i gyflawni ein hamcanion polisi economaidd.

Bydd y gweithgarwch hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r sector preifat gynyddu ei gyllid, ac mae rôl banciau'r stryd fawr yn hollbwysig yn hyn o beth. Byddwn yn parhau i drafod â banciau i'w hannog i fod yn oddefgar ac yn amyneddgar wrth ddelio â busnesau sy'n wynebau problemau dros dro, ac i weithio gyda nhw i helpu i symud eu modelau busnes i gyd-fynd â'n gweledigaeth.

Perfformiad arloesi cadarnhaol

Mae Cymru yn ymfalchio yn ei hanes o ymchwil ac arloesi blaengar, ac er ei bod yn wlad fach, mae'n gweithredu ar raddfa fyd-eang. Mae ymchwil, datblygu ac arloesi yn hanfodol i adeiladu economi gadarn, a chreu'r cyfleoedd hynny a fydd yn cyflawni ein hagenda ar gyfer economi ffyniannus, wyrdd a chyfartal. Roedd ein papur polisi yn 2019 "*Diogelu Ymchwil ac Arloesedd ar ôl Ymadael â'r EU*" yn

tynnu sylw at effeithiau helaeth a chynulleidfa ryngwladol ymchwil yng Nghymru ers datganoli; gan gynnwys y cyfraniad sylweddol mae wedi'i wneud at wella perfformiad Cymru yn Ewrop o ran arloesi.

Ym mis Gorffennaf 2020, amlinellodd Map Ymchwil a Datblygu Llywodraeth y DU weledigaeth bwysig ac uchelgeisiol ar gyfer economi sy'n fwy dwys o ran ymchwil, sy'n cael ei harwain gan arloesedd, yn ysgogi'r adferiad o COVID ac yn cefnogi'r DU wrth iddi ymadael â'r UE, ynghyd â'i hymrwymiad uchelgeisiol i fod yn garbon niwtral.

Bydd harneisio rhagoriaeth Cymru ym maes ymchwil ac arloesi yn cynnwys datblygu technolegau newydd, a fydd yn bwysig iawn ar gyfer cyflymu'r adferiad yn dilyn COVID-19. Bydd yn cynnwys cyfleoedd i ddysgu a gweithio o bell, lleihau ynysigrwydd rhai cymunedau yng Nghymru, dileu'r angen i fyw neu deithio i ganolfannau economaidd, a chreu cyfleoedd i ardaloedd gwledig o Gymru ffynnu, tra bo rhagor o bobl yn byw, yn gweithio ac yn dysgu o bob cwr o Gymru.

Mae cynyddu capasiti ymchwil a datblygu/arloesi Cymru yn parhau i ddibynnu ar Lywodraeth y DU yn cyflawni'r Gronfa Ffyniant Cyffredin a'r agenda 'lefelu'. Rhaid i fuddsoddiadau mewn ymchwil a datblygu gael eu dyrannu ledled gwahanol leoliadau'r DU mewn modd tecach. Er mwyn sicrhau

bod gan Gymru y capasiti ymchwil ac arloesi i gystadlu am ragor o gyllid i wneud rhagor o ymchwil, bydd angen datganoli ffrwd gyllid sylweddol sydd â'r nod o gynyddu ei chapasiti ar draws yr holl sbectrwm ymchwil a datblygu, gan dargedu pobl, sgiliau a'r seilwaith hanfodol. Gallai hyn ddarparu buddsoddiadau i adeiladu galluoedd newydd sy'n bwysig i'n dyfodol ym meysydd seiberddiogelwch, Deallusrwydd Artiffisial (AI) a gwyddor data, a bydd angen cyllid gan y DU er mwyn rhoi ein cynigion ar waith.

Ers 2014 mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi cyllid strwythurol yr UE gwerth dros £500 miliwn mewn ymchwil ac arloesi. Mae'r buddsoddi hwn wedi gwneud cyfraniad mawr at gynyddu cyfanswm, ansawdd ac effaith ymchwil yng Nghymru dros yr 20 mlynedd diwethaf. Mae'n hanfodol bellach bod Llywodraeth y DU yn cadw at ei haddewid na fydd Cymru yn waeth ei byd o ganlyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae ymrwymiad Llywodraeth y DU i gynyddu buddsoddi mewn ymchwil a datblygu dros y tair blynedd nesaf yn gam cadarnhaol a byddwn ni'n dadlau dros gyfran deg a sylweddol o'r cyllid hwn yn cael ei datganoli i Gymru.

Byddwn yn parhau i roi cymorth ariannol drwy SMART Cymru i ddatblygu, gweithredu

a masnacheiddio cynhyrchion, prosesau a gwasanaethau newydd. Mae'r dull cynhwysfawr hwn yn darparu cymorth yn ystod pob cam, o'r asesiad o ddichonoldeb, yr ymchwil ddiwydiannol, y datblygu arbrofol i'r cam gweithredu, gan amrywio'r lefelau o ymyrraeth yn unol â lefel y risg. Bydd hyn yn cael ei ategu gan ein gwasanaeth cyngori Arloesedd SMART ar gyfer busnesau sydd am gynnal prosiectau ymchwil, datblygu ac arloesi. Bydd y gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu ledled Cymru gan dîm o arbenigwyr arloesi, rheolwyr datblygu, arbenigwyr gweithgynhyrchu a dylunio, rheolwyr masnacheiddio ac arbenigwyr eiddo deallusol.

Gyda buddsoddiad bach, mae Rhaglenni Catalydd a Sbarduno'r Fenter Ymchwil Busnesau Bach wedi darparu mecanwaith ar gyfer sefydliadau sector cyhoeddus i gaffael arloesedd gan fusnesau drwy her yn hytrach na manyleb. Byddwn yn parhau i ysgogi a meithrin y perthnasau hyn drwy'r Fenter Ymchwil Busnesau Bach.

Allforion

Mae allforion yn bwysig i economi gadarn, gan helpu i wrthbwyso dirywiad yn y farchnad ddomestig ac arwain at fusnesau mwy cynhyrchiol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae perfformiad allforio yng Nghymru wedi bod yn gadarnhaol, gyda gwerth y nwyddau a allforiwyd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth

i ben yn 2019 yn cyrraedd £17.8bn, cynnydd o 34% ers 2015. Mae effaith COVID-19 ar ein hallforion wedi bod yn sylweddol. Mae ystadegau allforio dros-dro yn dangos yr effaith negyddol ar allforion o Gymru tra bod gostyngiad o 20% yng ngwerth y nwyddau sy'n cael eu hallforio (ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Medi 2020). Er bod pob un o wledydd y DU wedi gweld gostyngiad yn y fasnach nwyddau, mae gwerth y nwyddau sy'n cael eu hallforio o Gymru wedi gostwng mwy nag ar draws y DU yn gyfan.

Mae'r adroddiad Cynllun Gweithredu Cymru ar Allforio a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn nodi sut, fel rhan allweddol o'n hymdrechion cyffredinol i gefnogi adferiad economaidd yng Nghymru, byddwn yn cynorthwyo busnesau i adfer ac ailadeiladu eu hallforion, ac addasu i unrhyw brosesau a chytundebau masnach newydd cysylltiedig.

Bydd cymorth ar gael i helpu cwmnïau o bob maint ledled Cymru yn ystod camau allweddol eu taith allforio – o ysbrydoli busnesau i allforio; adeiladu capasiti; dod o hyd i gwsmeriaid, a chael mynediad at farchnadoedd tramor – gyda'r uchelgais trosfwaol o greu sector allforio cryf, bywiog a chynaliadwy, er mwyn helpu i ddiogelu swyddi presennol a chreu swyddi newydd a chyfleoedd ar gyfer pobl yng Nghymru.



Georgia Gasgoyne, Pennaeth a Rheolwr Gyfarwyddwr Huntingdon Fusion Techniques, Porth Tywyn, Sir Gâr. Mae HFT wedi gweld twf sylweddol yn eu hallforion yn y pum mlynedd diwethaf, gydag allforion bellach yn cyfrif am 80% o werthiant y cwmni.

Gweithgynhyrchu

Mae Cymru yn ymfalchio yn ei hanes hir o weithgynhyrchu, ac mae'n parhau i gyfrannu'n sylweddol at les dinasyddion Cymru o ran cyflogaeth a chreu cyfoeth. Mae gennym lawer o gwmnïau arloesol yng Nghymru ac rydym yn hwyluso partneriaeth rhwng diwydiant, llywodraeth, y byd academiaidd ac undebau llafur i gymryd camau i ddiogelu'r sector yn y dyfodol.

Mae ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Gweithgynhyrchu yn dwyn ynghyd raglen waith wedi'i hanelu'n benodol at y sector hwn. Mae'n rhaid i ni bontio a chefnogi trawsnewid ein cymuned weithgynhyrchu - gan gynnwys ei chadwyni cyflenwi - i un sy'n ymwneud fwyfwy â gweithgareddau 'gwerth ychwanegol'. Mae arnom angen cymuned weithgynhyrchu sy'n cynnwys cwmnïau sydd â pherfformiad ariannol cryf, sy'n ymgymryd â gweithgareddau strategol bwysig ac sy'n cael effaith gymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol gadarnhaol ar eu cymunedau lleol, eu rhanbarthau a'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru, gyda'i hanes balch o weithio'n agos gyda diwydiant, y byd academiaidd ac undebau llafur, yn cefnogi busnesau a gweithwyr gweithgynhyrchu drwy'r cyfnod hwn o newid, gan eu helpu i ffynnu yn y dyfodol.





Magneteiddio buddsoddiadau mewn adferiad gwyrdd

Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar fuddsoddiadau mawr yn y dyfodol fel “prosiectau magnet” i ddenu buddsoddiadau i sicrhau enillion cynaliadwy hirdymor, gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma. Bydd y prosiectau hyn yn croesawu ac yn manteisio ar dechnolegau newydd ac aflonyddgar fel deallusrwydd artiffisial a thechnolegau iaith, gan ddenu cyflogaeth, sgiliau, arloesi a datblygu i Gymru. Bydd hyn yn cynnwys pwyslais cryf ar ymchwil a datblygu, arloesi, cynlluniau ysgogi rhanbarthol, creu clystyrau o fusnesau bach a chanolig, sgiliau, cydnabod nad yw “adferiad gwyrdd” yn rhywbeth i'w roi mewn un blwch, ond yn hytrach yn rhywbeth y mae'n rhaid iddo arwain a sbarduno gweithredu ar draws yr economi.



AMRC Cymru ym Mrychdyn, Sir y Fflint. AMRC Cymru yw un o Brosiectau Magned Llywodraeth Cymru. Cafodd ei sefydlu fel cyfleuster ymchwil a datblygu blaengar i ddarparu platfform arloesi agored y gallai holl weithgynhyrchwyr Cymru fanteisio arno. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £2m ynddo i sefydlu Hyb Pecynnu Cynaliadwy i ddatblygu technolegau ar gyfer cynyddu cyfraddau ailgylchu poteli plastig a phlastig cymysg. Mae AMRC Cymru yn gartref hefyd i brosiect Wing of Tomorrow Airbus i ddatblygu dulliau cydosod awtomatig a thechnolegau digidol integredig newydd.

Atyniadau a Magnetau

Mae gennym eisoes nifer o brosiectau magnet neu prosiectau denu, sy'n cael eu cyflwyno a'u cyflawni gan Lywodraeth Cymru, ac yn gweithio mewn partneriaeth ar draws sectorau a rhanbarthau. A hwythau'n brosiectau annibynnol a ffynonellau gweithgarwch economaidd ac ymchwil a datblygu yn eu rhinwedd eu hunain, maent hefyd yn gatalydd ar gyfer gweithgarwch a buddsoddiadau pellach yn niwydiannau'r dyfodol, gan y sector cyhoeddus a'r sector preifat, gan ddenu busnesau i gynnal eu holl weithgareddau yng Nghymru – neu rai ohonynt.

Mae hefyd datblygiadau polisi pwysig yn yr arfaeth. Bydd Cymru, gyda gwledydd eraill y DU, yn cyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes newydd yn y blynyddoedd i ddod. Byddwn yn treialu technoleg ddigidol arloesol yma i ganfod a oes modd gwneud prosesau gwell sy'n defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon, gan ddefnyddio ffrydiau casglu sy'n bodoli eisoes.

Canolfannau Ymchwil a Rhagoriaeth

Yng Ngogledd Cymru byddwn yn adeiladu ar lwyddiant y Ganolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch drwy greu Canolfan Ymchwil Technoleg Uwch, mewn cydweithrediad â'r Weinyddiaeth Amddiffyn, i ddatblygu clwstwr technoleg ac arloesi bywiog

wedi'i alinio â thechnolegau sy'n dod i'r amlwg. Yn y De byddwn yn parhau â'n hymdrechion i sefydlu'r Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd. Byddwn hefyd yn ymgymryd â her ynni'r môr a cheisio dod yn arweinydd byd-eang ym maes ymchwil, datblygu a defnyddio Technoleg Ynni Gwynt sy'n arnofio ar y môr.

Mae rhaglen technoleg ymasiad (STEP) 20 mlynedd Llywodraeth y DU yn chwilio am safle addas i'w leoli, a rydym yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol ledled Cymru i annog cynigion sy'n gallu cwrdd â'r meini prawf penodedig.

Byddwn yn parhau i greu'r amodau lle y gallwn ddenu prosiectau a fydd yn eu tro yn denu busnesau, gan ennill cyllid gan Lywodraeth y DU drwy fecanweithiau fel y Strategaeth Ddiwydiannol a'r Map Ffordd Ymchwil a Datblygu. Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar y berthynas â'n partneriaid cymdeithasol a'n cyrff masnach, gan ddefnyddio eu sianeli i gynyddu ymhellach y sylw mae economi Cymru yn ei gael ar lefel y DU.

Mewnfuddsoddi

Bydd y ffordd rydym yn ymdrin â Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor yn parhau i hyrwyddo'r meysydd hynny o fewn yr economi ble y mae Cymru yn arddangos galluoedd rhyngwladol gan

gynnwys seibr-ddiogelwch, lled-ddargludyddion cyfansawdd, technoleg ariannol, gwyddorau bywyd, ynni adnewyddadwy a gweithgynhyrchu ychwanegu gwerth/ y genhedlaeth nesaf. Byddwn hefyd yn pwysleisio llawer ar fentrau newydd a phrosiectau ledled Cymru ar fagnetau sy'n denu buddsoddiadau sy'n bodoli eisoes a rhai newydd sy'n cynnig cyfleoedd busnes ac yn denu buddsoddiad ar gyfer enillion hirdymor Cymru ac mewn meysydd o weithgarwch sy'n sbarduno adferiad teg, gwyrdd a chyfiawn.

Byddwn yn parhau i hyrwyddo Cymru fel lleoliad ar gyfer gigaffatri yn y DU – ased allweddol os yw'r DU am gymryd rhan flaenllaw yn y gwaith o weithgynhyrchu cerbydau trydan.

Creadigol

Drwy **Gymru Greadigol** byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein diwydiannau creadigol, un o'r sectorau sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru, sy'n ategu ac yn cynyddu ein henw da am ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu. Ledled y byd, mae pobl dalentog a chreadigol o Gymru yn gwneud eu marc. Rydym yn troi dychmyg yn ddiwydiant, gan ddarparu gyrfaoedd gwerth chweil a datblygu hunaniaeth newydd ar gyfer ein cenedl. Byddwn yn canolbwyntio'n gyntaf ar dri is-sector allweddol: ffilm a theledu, technoleg digidol a gemau, a cherddoriaeth. Ar gyfer pob un o'r sectorau hyn byddwn yn datblygu cynllun gweithredu cynhwysfawr gyda rhanddeiliaid allweddol. Byddwn yn ceisio hyrwyddo pob sector yn rhyngwladol, a darparu cyfleoedd i gwmnïau allweddol wella eu proffil byd-eang

Rhaglen Datblygu'r Gweithlu

Yn ogystal â gwella ein proffil a'n henw da, mae creu lleoedd deniadol ac ynddynt weithwyr medrus yn denu buddsoddiadau. Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar botensial ein buddsoddiadau mewn cynlluniau creu lleoedd i ddenu a chadw busnesau. Mae atgyfnerthu cydweithredu rhanbarthol yn rhoi cyfleoedd gwirioneddol i feithrin perthynas ystyrlon â busnesau a'r gweithlu, yn ogystal â manteisio ar botensial buddsoddi rhanbarthol, megis Bargeinion

Dinesig a Bargeinion Twf, i gyflawni ein agenda, yn ogystal â datblygu a darparu pecynnau ysgogi lleol a rhanbarthol posibl.

Technoleg a diwydiant gwyrdd

Mae Cymru wedi sefydlu targedau i 70% o anghenion trydan Cymru gael eu diwallu gan ynni adnewyddadwy erbyn 2030, gyda dros hanner ein trydan eisoes yn dod o ffynonellau adnewyddadwy. Mae targed o'r fath yn cynnig cyfleoedd a sicrwydd i ddiwydiant ddatblygu'r atebion a fydd yn ein helpu i wireddu'r uchelgais hwn.

Mae gennym gyfle enfawr ym maes technoleg werdd a chynhyrchu ynni, cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y môr, arloesi a manteisio ar gyfleoedd. Byddwn yn parhau i fynd i'r afael â'r rhwystrau i ddatblygu a buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy yng Nghymru a'u dileu, a datblygu ynni adnewyddadwy morol sy'n gyson â'r blaenoriaethau yng Nghynllun Morol Cymru.

Mae mentrau dan berchnogaeth cymunedol sy'n cefnogi natur, yr amgylchedd lleol, ynni gwyrdd a bwyd cynaliadwy yn darparu llawer o fuddion, gan gyfrannu at greu economi llesiant.

Mae hydrogen yn danwydd hyblyg a fydd yn bwysig yn ein heconomi carbon isel yn y dyfodol. Mae ganddo'r potensial i ddiwallu anghenion o ran pŵer, gwres a thrafnidiaeth. Byddwn yn gweithio'n

agos gyda Grŵp Cyfeirio Hydrogen Cymru i ddatblygu a manteisio ar Lwybr Hydrogen i Gymru, gan dynnu sylw at y cyfleoedd presennol ac yn y dyfodol a deall y galw a'r cyflenwad tebygol ar draws sectorau allweddol fel trafndiaeth, diwydiant a phŵer.

Rydym yn cefnogi'r angen i gefnu ar geir petrol a diesel, a byddwn yn parhau â'n gwaith gyda Fforwm Modurol Cymru i leihau'r effaith ar gadwyn gyflenwi'r diwydiant modurol yng Nghymru a helpu'r rhai sy'n gallu trosglwyddo i'r cadwyni cyflenwi newydd a fyynnir gan gerbydau carbon isel a di-garbon.



Chwith i'r Dde: David Kerr, gyda Jessica Hynes fel Sofie Dahl, a Harry Taylor fel Roald Dahl. © Ffotograffydd Hartwood Films - Simon Ridgway



Atgyfnerthu'r ymdrech dros werth cymdeithasol

Y Contract Economaidd

Byddwn yn datblygu, yn ehangu ac yn atgyfnerthu'r **Contract Economaidd** er mwyn sicrhau ein bod yn cael gwerth cymdeithasol gan fusnesau a sefydliadau sy'n derbyn arian cyhoeddus.

Bydd ragor o waith yn cael ei wneud gyda chyflogwyr ac undebau llafur i groesawu a sefydlu gwerthoedd y Contract; gwaith teg; carbon isel, adnoddau'n cael eu defnyddio mewn modd cynaliadwy a hinsawdd gydnerth; hyrwyddo llesiant, yn benodol iechyd meddwl; ac economi y gellir ei haddasu.

Gwaith Teg a Hawliau Gweithwyr

Byddwn yn cyflawni ein blaenoriaethau a'n huchelgais i fod yn wlad gwaith teg – gan ddefnyddio pob ysgogiad sydd gennym i helpu i wireddu canlyniadau gwaith teg a gwella ein bywydau gwaith. Rydym wedi gwneud

cynnydd da o ran sefydlu'r Fforwm Gofal Cymdeithasol sy'n ystyried mesurau i wella amodau gwaith ym maes gofal cymdeithasol; y Fforwm Iechyd a Diogelwch sy'n dod â phartneriaid cymdeithasol, asiantaethau gorfodi ac eraill at ei gilydd i wella canlyniadau Iechyd a Diogelwch; ac rydym wedi lansio ymgyrch yn ddiweddar ochr yn ochr â phartneriaid cymdeithasol sydd wedi'i thargedu at roi'r wybodaeth, yr offer a'r gefnogaeth i weithwyr a chyflogwyr i sicrhau bod hawliau cyflogaeth yn cael eu parchu a'u rhoi ar waith.

Byddwn yn cynyddu ein gwaith gyda phartneriaid cymdeithasol i hyrwyddo manteision cyflogwyr ac Undebau Llafur yn gweithio fel partneriaid mewn ysbryd o gydweithio, cydymrwymiad a pharch at ei gilydd i wneud y gweithle yn lle gwell i bawb. Nid yw ein cefnogaeth ar gyfer gwaith teg wedi'i chyfyngu i werth cymdeithasol a dadleuon moesol a moesegol – credwn fod gwaith teg yn hanfodol i economi ffyniannus. Mae hyn yn adlewyrchu'r berthynas gref rhwng trin cyflogeion yn deg, eu llesiant a'u hymgyssylltiad, gan arwain at ymrwymiad cryfach, cynhyrchiant uwch, llai o absenoldeb, perfformiad gwell wrth recriwtio a chadw staff ac agweddau eraill ar berfformiad busnes.

Mae cyflogwyr da yn darparu gwaith teg ac yn cydnabod manteision gwneud hynny i fusnes, felly, byddwn yn parhau i ddadlau o blaid yr achos economaidd yn ogystal â'r achos moesegol dros waith teg.

Llesiant yn y gwaith

Bydd y rhaglenni a ariennir gennym, Prosiect Cymorth yn y Gwaith a Chymru Iach ar Waith, yn parhau i ddarparu a datblygu cyngor a chymorth wedi'u targedu ar gyfer pobl sy'n gweithio a chyflogwyr ar faterion sy'n effeithio ar lesiant meddyliol a chorfforol o ganlyniad i'r pandemig. Rydym hefyd yn cydnabod cyfraniad sylweddol a pharhaus yr ymgyrch Amser i Newid Cymru yn ystod y pandemig, gan helpu pobl i gael sgysiau anodd am iechyd meddwl a stigma yn y gweithle.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid cymdeithasol gan ddefnyddio eu trafodaethau â chyflogwyr i gryfhau'r ffocws a roddir ar ail-lunio swyddi ac ar ddatblygu cydnerthedd o fewn ein gweithlu. Mae Sicrhau datblygiadau mewn technoleg ddigidol yn arwain at newid cadarnhaol mewn gweithleoedd, gan arwain at sgiliau gwell a chyfleoedd ar gyfer gwneud cynnydd. Bydd Cronfa Ddysgu Undebau Cymru yn parhau i ddarparu'r capasiti ar gyfer ymateb i'r cyfleoedd a ddaw i'r amlwg.

I rai gweithwyr, mae cael y cyfle i ddysgu Cymraeg yn y gweithle yn darparu sgil ychwanegol ar gyfer gwneud cynnydd, yn ogystal â chreu cyfleoedd y tu allan i'r gweithle i ddefnyddio a mwynhau'r Gymraeg. Mae'r cynllun Iaith Gwaith rydym yn ei ariannu drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn darparu gwersi sy'n rhad ac am

ddim i'r cyflogwr a'r cyflogai. Mewn ymateb i'r pandemig mae'r Ganolfan wedi ehangu elfennau dysgu ar-lein a chyfunol laith Gwaith, gan ei gwneud yn fwy hygyrch a hyblyg i weithwyr sy'n gweithio gartref.

Cefnogi iechyd meddwl a llesiant meddyliol yn y gweithle – Amser i Newid Cymru



Digwyddiad Rhwydweithio Cyflogwyr Sydd Wedi Gwneud Addewid Amser i Newid Cymru, Hydref 2018

Mae ymchwil gan y Ganolfan ar gyfer Iechyd Meddwl wedi dod i'r casgliad bod effaith anghyfartal y feirws a'r cyfyngiadau symud wedi rhoi mwy o bwysau ar rai grwpiau a chymunedau, yn enwedig cymunedau lleiafrif ethnig, pobl anabl a phobl ifanc yr oedd eu hiechyd meddwl eisoes yn waeth ac yn fwy bregus cyn i'r pandemig ddechrau. Mae'r cyfuniad o anghydraddoldebau strwythurol presennol ac effeithiau anghyfartal y feirws yn golygu bod y bobl yr oedd eu hiechyd meddwl y mwyaf bregus cyn COVID-19 yn debygol o ddioddef effeithiau mwyaf niweidiol yr argyfwng yn y tymor hwy hefyd.

Mynd i'r afael â stigma iechyd meddwl fydd un o'r heriau mwyaf o ran cefnogi Cymru i adfer o COVID-19 yn seicolegol, gan sicrhau y gall dinasyddion cyffredin, gweithwyr a chyflogwyr gael y cymorth sydd ei angen arnynt ac y maent yn ei haeddu. Mae Amser i Newid Cymru wedi bod yn cyflawni dros Lywodraeth Cymru ers 2012, gan ymgysgu i roi terfyn ar y stigma a'r gwahaniaethu a wynebwr gan bobl sydd wedi dioddef problemau iechyd meddwl yng Nghymru. Maent wedi bod yn addasu eu model darparu gwasanaethau mewn modd deinamig ers i'r feirws ddod i'r amlwg i hyrwyddo'r adferiad, ailwerthuso anghenion iechyd meddwl ledled Cymru ac ailflaenoriaethu eu hymdrechion yn unol â nodau Llywodraeth Cymru, gan dargedu'r rhai sy'n dioddef amddifadedd cymdeithasol ac economaidd gwirioneddol. Mewn arolwg diweddar (Mehefin 2020) gan Amser i Newid Cymru i ddeall lefel y stigma iechyd meddwl yng Nghymru yn ystod y cyfyngiadau symud, dywedodd 54% o ymatebwyr fod y stigma roedden nhw'n ei deimlo ynghylch eu hunain wedi gwaethygu, a dywedodd 22% eu bod wedi profi stigma yn y gweithle.

Mae gan Amser i Newid Cymru gryn brofiad eisoes o weithio gyda chyflogwyr yng Nghymru, gyda bron i 200 o gyflogwyr cyhoeddus a phreifat yng Nghymru yn llofnodi'r Adduned Amser i Newid. Mae hyn yn cynrychioli dros 300,000 o weithwyr yng Nghymru (bron i un o bob pedwar o weithwyr yng Nghymru). Gan addasu i anghenion gweithwyr, mae'r rhaglen wedi symud ei ddarpariaeth i blatfformau digidol, yn ogystal â sefydlu perthnasau newydd â rhaglenni eraill sy'n rhoi cymorth i gyflogwyr (y Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith, Cymru Iach ar Waith). Mae eu Pecyn Cymorth i Gyflogwyr a'u hyfforddiant i Hyrwyddwyr Gweithwyr yn meithrin capasiti o fewn sefydliadau. Yn ystod y cyfyngiadau symud maent wedi cynnal momentwm drwy ddigwyddiadau ar-lein ar yr arferion gorau a hyfforddiant rhithwir i Hyrwyddwyr Gweithwyr, yn ogystal â chlywed gan gyflogwyr ynghylch yr hyn a weithiodd yn dda wrth fynd i'r afael â stigma yn y gweithle yn ystod pandemig.

Cynllun Adfer Swyddi

Ochr yn ochr â datblygu olynydd ein Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru nesaf, byddwn hefyd yn diweddaru ein rhaglen flynyddol o brosiectau, a pharhau â'n ymrwymiad i rannu â diwydiant adeiladu Cymru. Bydd y diweddariadau hyn i'r rhaglen o brosiectau'n helpu'r sector adeiladu i ddeall ein bwriadau ar gyfer y dyfodol, ac yn eu helpu nhw i gynllunio ymlaen llaw. Mae hyn yn cydnabod y cyfraniad enfawr y mae Llywodraeth Cymru a rhaglenni cyfalaf eraill y sector cyhoeddus, gyda'i gilydd, yn ei wneud at yr economi. Fel Llywodraeth, rydym yn creu ac yn cynnal gwaith drwy, er enghraifft, adeiladu ysbytai, *Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif*, seilwaith trafnidiaeth, a llawer o weithgareddau eraill. Bydd y diweddariadau hyn hefyd yn ddefnyddiol wrth adolygu i ba raddau y cedwir y buddsoddiadau hyn yng Nghymru a beth arall y gallwn ei wneud i sicrhau eu bod yn cael yr effaith fwyaf posibl.

Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel


Mae ymgorffori gwerth cymdeithasol yn ganolog i nod y Cynllun Gweithredu ar gyfer Gweithgynhyrchu o symud i "weithgareddau gwerth uchel" sef gweithgareddau gweithgynhyrchu sy'n cael effaith gadarnhaol ar lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol dinasyddion Cymru. Bydd ein Cynllun Gweithredu yn ymgorffori'r canlyniadau hyn yn y gwaith rydym yn ei wneud i baratoi'r sector ar gyfer y dyfodol.



Cipolwg ar y Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economaidd

Ffyniannus

- cael busnesau i gystadlu'n hyderus
- busnesau brodorol cryf a mewnfuddsoddi
- defnyddio a masnacholi dyfeisiau a darganfyddiadau blaengar newydd
- diwylliant entrepreneuraidd
- mwy o fusnesau newydd, sector BBaChau bywiog a mentrau arloesol
- ar agor ac yn croesawu mewnfuddsoddwyr o bedwar ban byd
- cyfleoedd allforio newydd ym marchnadoedd y byd



Mesur Llwyddiant

Mae'r hyn rydym yn ei fesur yn arwydd o'r hyn rydym yn ei werthfawrogi. Mae'r angen i fesur allbynnau a chanlyniadau ac i werthuso effeithiau'n parhau i fod yn rhan hanfodol o'r awydd i wella perfformiad, ac mae o ddiddordeb i'r cyfryngau a'r cyhoedd o ran sicrhau bod llywodraeth a sefydliadau cyhoeddus yn atebol. Mae'r genhadaeth ar gyfer ailadeiladu'r economi yn nodi mai economi sy'n seiliedig ar lesiant yw'r uchelgais ar gyfer economi'r dyfodol. Mae dull cyfannol o ymdrin â'r economi, gan gydnabod ei photensial ar gyfer niwed yn ogystal â lles, yn gofyn am ffordd gyfannol o fesur cynnydd.

Ni all Gwerth Ychwanegol Gros (GYC) fod y prif fesur o lwyddiant a ffyniant mwyach. Mae ein ffocws ar weld cynnydd yn y dangosyddion cenedlaethol ar gyfer Cymru, sy'n adlewyrchu'r weledigaeth ar gyfer llesiant fel ein piler canolog. Mae hyn yn golygu ysgogi gwelliannau i'n heffeithiau amgylcheddol, ein lles yn y gwaith a chynnydd y gymdeithas ehangach yn ei chyfanrwydd. Nid yw mesur cyfoeth cyffredinol cenedl wrth anwybyddu anghydraddoldeb neu ddirywiad amgylcheddol canlyniadol yn ddigon.

Mae'r dangosyddion llesiant canlynol yn enghraifft o ehangder y metrigau sy'n llywio ein dull gweithredu, ac yn ein galluogi i fonitro ac olrhain ein cynnydd fel cenedl. Bydd polisiau penodol yn mynnu haenau

eraill o fesurau. Er enghraifft, mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu dangosyddion canlyniadau wedi eu mapio i bob nodwedd gwaith teg a bennwyd gan y Comisiwn Gwaith Teg. Rydym yn bwriadu defnyddio'r dangosyddion hyn at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys mesur canlyniadau gwaith teg dros amser a helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu a thargedu polisiau'r dyfodol.

Metrigau Adfer ac Ailadeiladu'r Economi

Mae gan Gymru dangosyddion cenedlaethol i asesu'r cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant. Cyhoeddwyd 46 o ddangosyddion cenedlaethol mis Mawrth 2016 ac mae'r rhifau isod yn adlewyrchu'r rhestr hon.

Llesiant Amgylcheddol

- 04 Lefelau llygredd nitrogen deuocsid (NO₂) yn yr aer
- 12 Capasiti (yn MW) offer ynni adnewyddadwy a osodwyd
- 14 Ôl traed Ecolegol Cymru
- 15 Faint o wastraff a gynhyrchir nad yw'n cael ei ailgylchu, fesul person
- 41 Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru
- 43 Ardaloedd lle mae ecosystemau iach yng Nghymru

Llesiant Economaidd

- 09 Gwerth Ychwanegol Gros (GYC) yr awr a weithir (o'i gymharu â chyfartaledd y DU)
- 11 Canran y busnesau sy'n arloesi mewn modd gweithredol
- 16 Canran y bobl mewn cyflogaeth, sydd ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro, ac nad ydynt yn ceisio cyflogaeth barhaol) ac sy'n ennill mwy na dau draean o gyflog canolrif y DU
- 17 Y blwch cyflog rhwng y rhywiau
- 22 Canran y bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran

Llesiant Cymunedol

- 08 Canran yr oedolion â chymwysterau ar wahanol lefelau'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol
- 10 Incwm Gwario Gros yr Aelwydydd y pen
- 18 Canran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn tldi incwm o'i chymharu â chanolrif y DU: wedi'i mesur ar gyfer plant, pobl oedran gweithio a phobl oedran pensiwn
- 23 Y ganran sy'n teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol
- 29 Sgôr llesiant meddyliol gymedrig i bobl
- 33 Canran yr anheddau â pherfformiad ynni digonol

Ceir disgrifiad llawn o'r dangosyddion cenedlaethol gan gynnwys eu diffiniad technegol a gwybodaeth am ffynonellau data ac amlder ar wefan [Llywodraeth Cymru](#).